# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 29 Medi 2022**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Catrin Wager

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Dyfrig Jones
Y Cynghorydd Bleddyn Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Walter Williams

**Cynghorydd Sir**
Cyng. Rheinallt Puw

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Dyfrig Jones.
   **Ymddiheuriadau** – Cyngr. Michael Williams a Paul Rowlinson.

**2. Datgan Diddordeb**

Cyng. Godfrey Northam yn datgan diddordeb ar pwynt 10 o'r agenda – Gohebiaeth rhif 2 a 5 – Ysgoloriaeth Ysgol Llanllechid ac Estyniad Ysgol Llanllechid– aelod o Gorff Llywodraethwyr o'r ddwy ysgol.

Cyng. Catrin Wager yn datgan diddordeb ar pwynt 8 o'r agenda – Adroddiad Partneriaeth Ogwen – aelod o staff Partneriaeth Ogwen.

**3. Materion Brys**

**'Parallel Bars' ar gyfer Cae Chwarae Rachub** – Y Clerc i holi Sunshine Playgrounds am yr offer yma.

**Llwybrau Cyhoeddus –** Adroddwyd y Cyng. Ann Williams fod angen torri'r llwybrau cyhoeddus o fewn y plwyf, nid yw'r gwaith wedi gael ei gwblhau oherwydd salwch y contractwr presennol. Y Clerc i gael contractwr arall i wneud y gwaith cyn gynted a phosib.

**Gwasanaeth Bws –** Nodwyd fod problemau mawr gyda'r gwasanaeth bws o fewn yr ardal. Adroddwyd fod llawer o'r bysiau ddim yn troi fyny ar amser ac eu bod yn llawn, yn enwedig ers i'r ysgolion ail agor. Y Clerc i lythyru Arriva i godi pryderon y Cyngor. Nodwyd fod y Cyng. Einir Williams wedi cysylltu yn barod, ond heb dderbyn ymateb.

**4. Cofnodion**
Y Clerc i newid rhestr mynychu ac ymddiheuriadau. Hefyd, angen dileu un o'r ceisiadau cynllunio – Brig y Nant, oedd wedi ei ddyblygu. Yn dilyn yr addasiad yma, cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2022.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1** Gordyfiant ar Ffordd Gerlan – y Clerc wedi cysylltu unwaith eto, gyda chopi at y Cyngr. Rheinallt Puw ac Einir Williams, ond dim ymateb hyd yn hyn. Nodwyd fod y gordyfiant dal heb ei dorri, y Clerc i holi eto.
**5.2** Arwyddion stryd – nodwyd fod yr arwyddion wedi gael ei archebu ac wedi eu gosod.
**5.3** Llinellau melyn ym Mhant Dreiniog a Pant Glas – Cyng. Rheinallt Puw.
**5.4** Drychau newydd ar Lon Groes a gwaelod Ty'n Ffridd – Y Cyng. Paul Rowlinson – ar y gweill.
**5.5** Cae Chwarae Pantdreiniog – Adroddwyd fod y gwaith wedi gael ei gwblhau. Y Clerc wedi trefnu i dynnu llun o'r Cynghorwyr ar y safle wythnos nesaf, a'i rhannu gyda Llais Ogwan a'r cyfryngau cymdeithasol.
**5.6** Cyngor Gwynedd – Llinellau melyn Llwyn Bleddyn – ar y gweill – Y Clerc.
**5.7** YGC – Sherpa Shelters –Y Clerc wedi holi os oes bosib gosod y sgriniau gyda'r amserlen yn y llochesi metel presennol y mae'r Cyngor wedi'i osod yn ddiweddar. Dim ymateb hyd yn hyn.
**5.8** Llinellau Melyn – man pasio ger Fynwent Coetmor a tu allan i rhif 3 Tanybwlch, Rachub – ar y gweill – y Clerc.
**5.9** Ffordd Llwyn Bleddyn a Mynediad i fynwent Coetmor – y Clerc wedi danfon pryderon y Cyngor ymlaen ac wedi gofyn wrth Cyngor Gwynedd i gynnal asesiad dioglewch ar y ffordd. Dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i holi am ddiweddariad.
**5.10** Wynne Parry, Adra – Safle Stryd y Ffynnon – Y Clerc wedi cyfarfod ar y safle gyda'r Cyngr. Ann Williams a Linda Brown. Nodwyd fod nifer o materion eraill wedi codi, e.e. slabiau concrit wedi torri, tyfiant rhwng y slabiau. Y Clerc i godi'r materion yma gyda Wynne Parry a Judith Kaufmann, sydd yn rhan o'r grwp cymunedol sydd yn defnyddio'r safle.
**5.11** Llys Dafydd – Cadarnhawyd bod oedd Llysiau'r Dial ar y safle, a nodwyd fod y Clerc wedi gael contractwr arbennigol allan i'w drin. Yn dilyn hyn, nodwyd fod y contractwr bydd yn trwsio'r wal gynnal wedi ymweld a'r safle, gan obeithio fydd y gwaith yn cychwyn cyn gynted a bu'r modd.
**5.12** Nodwyd y Cyng. Walter Williams ei fod wedi derbyn cwyn am arwydd siop Penrhyn Pictures ar y stryd fawr, am ei fod yn uniaith Saesneg. Y Clerc i fynd draw am sgwrs gyda'r perchnogion.
**5.13 Bin Maes Bleddyn –** y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd – ar y gweill.
**5.14 Palmant Llwyn Bleddyn –** y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd – ar y gweill.
**5.15 Golau Stryd Llidiart y Gwenyn** – Adroddwyd fod hi'n dywyll iawn ger tai Llidiart y Gwenyn. Y Clerc i edrych ar y cais cynllunio gwreiddiol, ac i gynnwys yr eitem ar yr agenda nesaf.

**6. Lon Bach Odro**
Adroddwyd y Cyng. Huw Jones fod angen torri'r coed ar hyd y llwybr hwn, ac bod y ffens a'r waliau cyfagos angen ei trwsio. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

Nodwyd hefyd fod beiciau modur yn gyrru yn gyflym ar hyd y llwybr, gyda llawer o 'near misses' gyda cherddwyr yn ddiweddar. Y Clerc i hysbysu'r Heddlu ac i ofyn iddynt plismona'r ardal yn rheolaidd.

**7. CCTV Stryd Fawr**
Adroddwyd fod y Noson Ymgynghoriad wedi gael ei gynnal ar yr 20fed o Fedi yn Nghanolfan Cefnfaes. Nodwyd hefyd fod holl preswylwyr a fydd yn gael ei heffeithio wedi gael ei llythyru. Nodwyd y Clerc fod llawer o'r ymatebion yn bositif, gyda nifer bach yn erbyn y cynlluniau. Y Clerc i lunio crynodeb manwl o'r costau ayyb ar gyfer y cyfarfod nesaf. Diolchodd y Clerc i'r Cynghorwyr wnaeth helpu ar y noson ac am cynorthwyo gyda dosbarthu'r llythyrau.

**8. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Cafwyd diweddariad llafar gan y Clerc. Nodwyd y bydd y Pwyllgor Rheoli yn cyfarfod ymhen pythefnos, felly fydd diweddariad mwy cryno ar gael ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**9. Maes parcio Gerlan**
Dim diweddariad ar gael. Cytunwyd y bydd y Cyng. Einir Williams a'r Cadeirydd yn trefnu cyfarfod hefo Cyngor Gwynedd i geisio gwthio pethau ymlaen.

**10. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Medi 2022'
**10.1** Elfed Jackson – cais am noddwyr 'Record brydeining dwy stand cneifio defaid gwlan cryf gyda gwelleifiau – Y Clerc i ail gyflwyno'r cais ym mis Ionawr, pryd mae'n amser derbyn ceisiadau.
**10.2** Ysgol Dyffryn Ogwen – Noson Gwobrwyo Ysgol Dyffryn Ogwen – penderfynwyd rhoid rhodd o £150 eto eleni.
**10.3** Llywodraeth Cymru – Holiadur Ymchwil Digidol – pawb i gwblhau fel unigolion.
**10.4** Cyng. Rheinallt Puw – Tim Tacluso Ardal Ni – penderfynwyd gwahodd David Williams i'r cyfarfod nesaf.
**10.5** Cyngor Cymuned Llanllechid – Estyniad Ysgol Llanllechid – penderfynwyd cefnogi'r cais, y Clerc i ymateb.
**10.6** Cyngor Gwynedd – Grid Gwartheg newydd ar Lon Las Ogwen – nodwyd y Cyngor eu bod hefo dim gwrthwynebiad i'r gwaith hwn.
**10.7** Cyngor Gwynedd – Digwyddiad Ardal Ni 2035 – Cyngr. Walter Williams a Mary Jones i fynychu'r digwyddiad ar ran y Cyngor.

**11. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**
**C22/0256/13/LL**

| | |
|---|---|
| Brig y Nant, Lon Newydd Coetmor | Codi 18 tŷ, ffordd newydd a thirlunio<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C22/0327/16/AC**
Chwarel y Penrhyn

Cais o dan Adran 73 i amrywio amod 1 a 3 o ganiatad cynllunio C16/1164/16/MW
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C22/0336/16/MW**
Chwarel y Penrhyn

Cais ar gyfer estyniad i weithfeydd cloddio llechi
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C22/0557/13/DT**
4 Rhes Gerlan, Gerlan

Mae'r gwaith arfaethedig ar gyfer y cais hwn yn ymwneud â dymchwel y porth presennol yn 4 Teras Gerlan ac adeiladu porth newydd, yn cysylltu'r eiddo â'r Hen Garej. Bydd Yr Hen Garej wedyn yn cael ei drawsnewid yn 2 ystafell wely ychwanegol ac ystafell ymolchi i'w defnyddio gan 4 Teras Gerlan. Bydd y porth arfaethedig yn gweithredu fel coridor cysylltu, gan gysylltu'r ddau eiddo. Bydd Yr Hen Garej yn cael ei hadfer yn gan ddefnyddio deunyddiau naturiol, lleol. Bydd yr estyniad arfaethedig yn cael ei adeiladu gan ddefnyddio ffrâm bren lleol a'i orchuddio â charreg leol i gyd-fynd â'r Hen Garej.
**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau.

**C22/0475/13/DT**
8 Tyddyn Canol, Rachub

Estyniad deulawr arfaethedig yn y cefn
**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau.

**C22/0512/13/LL**
38 Ffordd Tanybwlch, Rachub

Addasu ac ymestyn modurdy presennol yn dy
**Penderfyniad:** Gwrthodwyd.

**C22/0636/13/LL**
81 Stryd Fawr, Bethesda

Newid defnydd o siop i ddarn a gartref.
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C22/0674/13/AC**
Y Wern, Hen Ffarm Gerlan Ffordd Gerlan, Gerlan,

Diwygio amod 2 o ganiatâd cynllunio C18/1159/13/LL er galluogi dyluniadau tai diwygiedig
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**<u>Ceisiadau</u>**

**C22/0813/13/DT**
25 Allt Pen y Bryn, Bethesda

Dymchwel estyniad ac adeiladu to brig deulawr ynglwm ag estyniad to fflat yn y cefn.
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**C22/0811/13/LL**
Clwb Pel Droed, Bethesda

Adeiladu maes hyfforddi pob tywydd 3G gyda ffensys a goleuadau cysylltiedig.
**Penderfyniad:** Y Clerc i holi pam nad yw'r clwb
yn defnyddio y cae bach sydd drws nesaf i Fodurdy Ffrydlas? Hefyd, os aiff y cynllun yma ymlaen, fydd llai o lefydd parcio, fydd yn mynd i wneud sefyllfa traffic yn anoddach. Mae problemau parcio yn broblem yn barod. Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i'r clwb gael y cyfleusterau gorau, ond y dylid ystyried pob agwedd o'r cyfleusterau sydd yn bodoli cyn rhoi caniatad i'r cynllun hwn.

**12. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Opus Energy | BACS | Trydan Llys Dafydd | £122.91 |
| John Wyn Jones | BACS | Cyflog Mis Awst | £318.20 |
| Japanese Knotweed Removal Wales | BACS | Trin Llysiau'r Dial Llys Dafydd | £120.00 |
| Humphreys Signs Ltd | BACS | Arwyddion Diffibriliwr YDO | £102.00 |
| CthEM | BACS | TWE mis Awst | £79.60 |
| John Wyn Jones | BACS | Cyflog mis Medi | £318.20 |
| CThEM | BACS | TWE mis Mehefin | £79.60 |
| T Shaw | BACS | Torri Fynwent Coetmor | £420.00 |
| Sunshine Playgrounds | BACS | Offer a gosod Cae Chwarae Newydd Pantdreiniog | £35,951.17 |
| Scottish Power | BACS | Nwy Gorffwysfan | £28.66 |
| Partneriaeth Ogwen | BACS | Archebu a gosod arwyddion stryd | £455.00 |
| Partneriaeth Ogwen | BACS | Prynu Hysbysfwrdd Gorffwysfan | £809.00 |
| Opus Energy | BACS | Trydan Llys Dafydd | £31.71 |
| C L Jones | BACS | Nwyddau ar gyfer glanhau Llys Dafydd | £31.48 |
| C L Jones | BACS | 'Padlock' Llys Dafydd | £8.81 |
| Cyngor Gwynedd | BACS | Costau Etholiad | £321.00 |